

Teitl: Hawliau Dynol

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
Rhesymeg	Pedwar diben y 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am oes' Drwy ddysgu am Hawliau Dynol yn eu gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu [fel/i fod yn]: • Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maent yn dysgu amdanynt; • Unigolion iach, hyderus sydd â gwerthoedd pendant ac sy'n sefydlu eu credoau egwyddorol a'u hysbrydolrwydd; • Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n defnyddio eu hegri a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa; • Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru Wrth ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i: • Archwilio ac ymwneud â chwestiynau eithaf ac athronyddol • Ymgymryd ag ymholiadau ac ymwneud â ffynonellau doethineb ac athroniaethau • Datblygu a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain • Defnyddio eu gwybodaeth am gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol, a'u dealltwriaeth ohonyn nhw, i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain • Ystyried ym mha ffyrdd y mae crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiadau dynol drwy gydol hanes • Gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn mynd i'r afael â materion egwyddorol a moesol • Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, Cymru a'r byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt • Datblygu gwerthoedd pendant a sefydlu eu credoau egwyddorol a'u hysbrydolrwydd • Trafod eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill		

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	Y lens CGM Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau drwy'r is-lensys isod: • <u>Chwilio am ystyr a phwrpas;</u> • <u>Y byd naturiol a phethau byw;</u> • <u>Hunaniaeth a pherthyn;</u> • <u>Awdurdod a dylanwad;</u> • <u>Cydberthnasau a chyfrifoldeb;</u> • <u>Gwerthoedd a moeseg;</u> • <u>Taith bywyd;</u> *Noder y gwneir penderfyniad ar CGM yn lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer CGM y mae'n rhaid i ysgolion dalu sylw iddo. Mae pob maes llafur cytunedig yn rhoi sylw i fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau CGM y cyfeirir atynt uchod ac isod. Dolenni Defnyddiol: Canllawiau CGM - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#canllawiau-ar-grefydd,-gwerthoedd-a-moeseg Canllawiau'r Dyniaethau ar Hwb - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/ Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/ Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#them%C3%A2u-trawsgwricwlaidd		

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
Geiriau Allweddol	- Hawliau - Y rhyddid a'r amddiffyniadau sy'n perthyn i bob person, sy'n helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu trin gydag urddas, tegwch a pharch. - Credo(au) - Syniad neu argyhoeddiad sy'n bwysig i unigolyn, boed yn grefyddol neu'n anghrefyddol. - Byd-olwg - Y ffordd y mae unigolyn neu grŵp yn deall ac yn gwneud synnwyr o'r byd, gan gynnwys syniadau am fywyd, ystyr, beth sy'n bwysig a sut y dylem fyw. - Gwerthoedd - Syniadau am yr hyn sy'n	- Cynefin – Term Cymraeg y gellir ei gyfieithu fel 'ymdeimlad dwfn o berthyn'. - Wedi ei alltudio – Wedi'i eithrio o grŵp neu weithgareddau. - Duwdodau - Duwiau/duwiesau/bodau dwyfol. Mae gan lawer o Hindŵiaid ddelweddau o wahanol dduwiau sy'n gysylltiedig â straeon am wahanol agweddau ar yr 'ysbryd goruchaf' y credir ei fod wedi achosi ac wedi esblygu pob bydysawd. - Kosher - Yn llythrennol 'priodol' neu 'bropr' a'r term a ddefnyddir ar gyfer cartref sy'n dilyn yr holl gyfreithiau bwyd Iddewig. - Hijab – Penwisg a wisgir gan rai menywod Mwslimaidd sy'n gorchuddio eu gwallt (nid eu hwyneb).	Erthygl 9 – Cyfraith y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n amddiffyn rhyddid crefyddol a chred. Cydbwysio hawliau – Dod o hyd i atebion teg pan fydd hawliau neu ryddid gwahanol yn gwrthdaro. Cred – Syniad neu argyhoeddiad sy'n bwysig i berson, boed yn grefyddol neu'n anghrefyddol. Dinasyddiaeth – Bod yn aelod gweithgar, cyfrifol o gymdeithas sy'n parchu hawliau eraill. Democratiaeth – System lle mae gan bobl lais a lle gellir trafod credoau gwahanol yn deg. Gwahaniaethu – Trin rhywun yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw neu beth maen nhw'n ei gredu. Empathi – Deall ac ystyried sut mae pobl eraill yn teimlo. Deddf Cydraddoldeb 2010 – Cyfraith y DU sy'n amddiffyn pobl rhag triniaeth annheg oherwydd crefydd neu gred. Mynegiant cred – Dangos credoau trwy ddillad,

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	bwysig, yn werth chweil neu'n dda. Gall gwerthoedd ddylanwadu ar y dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud a sut maen nhw'n meddwl y dylai pobl drin ei gilydd. • Cyfrifoldeb - Y dyletswyddau neu'r rhwymedigaethau sydd gennym tuag atom ni ein hunain, pobl eraill, cymdeithas ac, i rai pobl, y byd naturiol neu Dduw. Mae cyfrifoldebau yn aml yn gysylltiedig â'n credoau a'n gwerthoedd.		symbolau, addoliad, dathliadau neu weithredoedd dyddiol. Rhyddid crefyddol neu gred – Yr hawl i ddewis, newid, dilyn neu fod heb unrhyw grefydd neu gred. Hawliau dynol – Hawliau a rhyddid sylfaenol sy'n perthyn i bawb. Hunaniaeth – Y credoau, y gwerthoedd a'r profiadau sy'n gwneud person yn nhw. Cynhwysiad – Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi ac yn gallu cymryd rhan. Rhagfarn – Barn negyddol am berson neu grŵp heb reswm da. Amrywiaeth grefyddol – Pobl o wahanol ffydd sy'n byw gyda'i gilydd yn yr un gymdeithas. Parch – Derbyn bod gan eraill yr hawl i gael credoau gwahanol i chi. Cymdeithas seciwlar – Cymdeithas lle nad yw'r

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
			Ilywodraeth yn cael ei reoli gan grefydd benodol. Undod – Cefnogi eraill, yn enwedig pan fyddant yn wynebu heriau neu wahaniaethu. Goddefgarwch – Caniatáu i bobl fynegi barn wahanol hyd yn oed pan fyddwch chi'n anghytuno â nhw.
Geiriau chwilio	• Hawliau Dynol • Urddas • Cydraddoldeb • Cyfiawnder • Ecwiti	Yr Eglwys yng Nghymru Bedyddio Goroeswr yr Holocost Natsïaid Gwladfa 9/11	Erthygl 9 Rhyddid crefyddol neu gred Hawliau Dynol Deddf Cydraddoldeb 2010 Hunaniaeth Amrywiaeth Cynhwysiad Parch Dinasyddiaeth Cymuned Iddewig Bangor Democratiaeth

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
		Pwll genynnau	
Tasgau Ymestyn-nol			
Tasgau Dosbarth	Sut ddylai argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol siapio'r ffordd rydym ni'n meddwl am hawliau dynol? Pwrpas yr Ymholiad Mae dysgwyr yn archwilio hawliau dynol trwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ystyried sut mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol yn deall urddas, cyfiawnder, cydraddoldeb, rhyddid a chyfrifoldeb. Maen nhw'n dod ar draws gwahanol ffynonellau awdurdod a safbwyntiau sy'n deillio o brofiad, wrth ystyried sut mae'r syniadau hyn yn dylanwadu ar ymatebion i faterion cyfoes a thrafodaeth wleidyddol. Nodau dysgu Erbyn diwedd yr ymholiad, bydd dysgwyr yn deall: - bod hawliau dynol yn perthyn i bob person ac yn gysylltiedig ag urddas a gwerth cyfartal; - y gall argyhoeddiadau athronyddol	a) Beth mae'n ei olygu i berthyn? Efallai yr hoffech chi feddwl am: - Sut rydych chi'n teimlo am le neu gymuned. - Sut maent yn teimlo amdanoch chi. - Pa mor dda rydych chi'n ffitio i mewn. - Rhywbeth arall. (Gellir ysgrifennu a/neu drafod hyn – ehangu syniadau i gynnwys, er enghraifft, grwpiau hobi, timau chwaraeon, chwaeth gerddorol ac ati.) b) Creu diagram pry cop o'r gwahanol bethau rydych chi'n teimlo eich bod chi'n perthyn iddynt. (a) Creu siart cylch gan ddefnyddio'r grid 'Agweddau o Grefydd'. Penderfynwch ar faint pob sleisen, yn dibynnu pa mor bwysig ydych chi'n meddwl yw pob agwedd. (b) Cymharwch eich siart cylch gydag eraill. - Ble a pham ydych chi'n cytuno/anghytuno?	Ystafell Ddianc y Ditectif Hawliau - Crëwch gyfres o gliwiau yn seiliedig ar Erthygl 9 a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Er enghraifft, 'Mae dysgwr eisiau gwisgo <i>kara</i>', 'Mae dysgwr yn gwrthod mynychu dathliad crefyddol', 'Mae gan ysgol bryderon diogelwch am emwaith', ac ati. - Mewn grwpiau, mae dysgwyr yn datrys posau trwy benderfynu (i) A yw hyn yn ymwneud ag arddel cred? (ii) A yw'n ymwneud â mynegi cred? (iii) A oes angen cydbwysio hawl? - Mae pob ateb cywir yn datgloi'r cliw nesaf. Peiriant Amser Bangor Rhowch wahanol rolau hanesyddol i grwpiau: - Aelod o'r gymuned Iddewig.

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	crefyddol ac anghrefyddol gynnig rhesymau amrywiol dros gefnogi hawliau dynol; - y gall dysgeidiaethau ac arweinwyr crefyddol ddylanwadu ar weithredu moesegol, tra bod traddodiadau yn cynnwys amrywiaeth ac anghytundeb; - bod yr ECHR yn amddiffyn hawliau pwysig, gan gynnwys rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd; - bod hawliau dynol yn cynnwys cwestiynau am ryddid a chyfrifoldebau. Mae dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE) - yn archwilio argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol am hawliau dynol; - yn dehongli dysgeidiaethau crefyddol ac enghreifftiau sy'n deillio o brofiad o grefydd; - yn ystyried ffynonellau awdurdod ac amrywiaeth yn y ddealltwriaeth o urddas; - yn archwilio cwestiynau moesegol am gyfiawnder, cydraddoldeb, rhyddid a chyfrifoldeb; - yn datblygu ymatebion rhesymegol i	- Fyddech chi'n ychwanegu agweddau eraill? Beth ydynt a pham? - Atebwch y cwestiwn fel brawddeg yn eich geiriau eich hun: 'Beth mae perthyn i grefydd yn ei olygu mewn gwirionedd?'. 3. Mae gwisg a symbolau crefyddol wedi'u gwahardd o fannau cyhoeddus yn Ffrainc. a. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da ai peidio? (Gellir ysgrifennu a/neu drafod hyn.) b. Lluniwch dabl sy'n rhestru rhesymau 'o blaid' ac 'yn erbyn' y gwaharddiad hwn. 4. a) Beth fydddech chi'n ei ddweud yw eich cenedligrwydd a pham? A yw'n gysylltiedig â'ch man geni? Ble rydych chi'n byw? Eich achau? (Tasg fyfyrrio.) b) Darllenwch baragraff olaf yr erthygl yn ofalus. Beth yw eich ateb i'r cwestiwn olaf: "Beth ydych chi'n ei feddwl?". Ceisiwch esbonio eich barn. (Gellir ysgrifennu a/neu drafod hyn.)	- Blaenor yn y capel. - Perchennog siop. - Gohebydd papur newydd. - Person ifanc o'r cyfnod. Mae dysgwyr yn creu un neu fwy o'r canlynol am gymuned Iddewig Bangor a'r defnydd o Gapel y Tabernacl: - Cofnodion dyddiadur. - Penawdau papurau newydd. - Cyfweliadau. - Adroddiadau newyddion. 3. Carwsél Cyfyng-gyngor TikTok Gosodwch senarios byr o amgylch yr ystafell: 'Mae dysgwr yn postio am ei ffydd ar-lein', 'Mae dysgwr yn postio ei fod yn anffyddiwr', 'Mae dysgwr yn gwisgo symbol crefyddol mewn fideo TikTok'. Mae rhywun yn gwneud jôcs am grŵp cred yn y sylwadau. Mae grwpiau o ddysgwyr yn y dosbarth yn cylchdroi bob ychydig funudau, ac ar gyfer pob senario, rhaid iddynt ateb: - Beth sy'n digwydd? - A oes hawl unrhyw un yn cael ei effeithio? - Sut ddylai eraill ymateb?

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	faterion cyfoes ac yn cydnabod y gall pobl anghytuno. 1. Ysgogiad: Dychmygwch Fywyd Heb Hawliau • Darllenwch ac anodi'r erthygl. Beth sy'n eich synnu? Pa gwestiynau sy'n codi? • Dychmygwch un hawl ddynol yn cael ei dileu o fywyd pob dydd. Pwy fyddai'n cael ei effeithio a sut? • Trafodwch: "Mae pawb yn gyfartal, ond nid oes gan bawb yr un anghenion." • Crëwch restr ddosbarth o hawliau y mae dysgwyr yn meddwl sy'n hanfodol. 2. Hawliau Dynol a Doethineb Crefyddol Mae grwpiau yn ymchwilio i bersbectif athronyddol crefyddol neu anghrefyddol gwahanol ac yn nodi dysgeidiaethau, cysyniadau neu enghreifftiau a allai ddylanwadu ar feddwl am urddas a chyfiawnder. • Cristnogaeth: pobl a grëwyd ar ddelw Duw; caru eich cymydog; Martin Luther King Jr. • Islam: cyfiawnder ('adl); cyfrifoldeb; dysgeidiaethau ac esiampyl y Proffwyd Muhammad.		Yna, mae'r grwpiau yn creu 'sgript cyngori TikTok' 30 eiliad ar gyfer y sefyllfa. 4. Dylunio 'Wal Berthyn' • Gofynnwch i'r dysgwyr, 'Beth fyddai'n gwneud i bawb deimlo eu bod yn perthyn?' • Trwy weithio gyda'i gilydd, mae dysgwyr yn dylunio murlun, arddangosfa ddigidol neu boster sy'n dathlu, e.e., amrywiaeth grefyddol, argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, hawliau dynol, a pharch. • Anogwch symbolau, dyfyniadau ac enghreifftiau Cymreig lleol. 5. Y Llys Hawliau Dynol Trawsnewidiwch yr ystafell ddosbarth yn llys hawliau dynol a chyflwyno achosion realistig fel: • Gofyn i ddysgwr dynnu symbol crefyddol i ffwrdd. • Ysgol yn ystyried polisi gwisg ysgol. • Dysgwr sydd eisiau gofod myfyrio tawel. Mae'r rolau yn cynnwys y barnwyr,

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	- Iddewiaeth: cyfiawnder, urddas a chyfrifoldeb tuag at eraill. - Hindŵaeth/Jainiaeth/Bwdhaeth: ahimsa, tosturi a lleihau niwed; Gandhi fel enghraifft o wrthsafiad di-drais. - Dyneiddiaeth: dynoliaeth a rennir, rheswm, empathi a chyfrifoldeb moesegol. Nid yn unig y dylai dysgwyr ystyried "Beth mae'r traddodiad neu'r byd-olwg hwn yn ei ddysgu i ni?" ond hefyd "Sut fyddai unigolyn sy'n arddel yr argyhoeddiad hwn yn ymateb i sefyllfa go iawn?". 3. Hawliau mewn Gwrthdaro? Archwiliwch sefyllfaoedd fel: - Mae unigolyn eisiau mynegi cred gref ar-lein, ond mae eraill yn dweud bod yr iaith yn niweidiol. A ddylai rhyddid mynegiant gael terfynau? - Mae ffoadur yn cyrraedd i geisio cael lloches a diogelwch. Pa gyfrifoldebau allai fod gan lywodraethau ac unigolion? - Mae grŵp crefyddol eisiau dilyn arfer y mae rhai pobl yn credu sy'n gwrthdaro â hawliau unigolyn arall. Sut y dylid mynd i'r afael â'r anghytundeb?		arbenigwyr hawliau, tystion, dysgwyr a newyddiadurwyr. Nid 'ennill' yw'r nod ond dod o hyd i gydbwysedd teg rhwng yr hawliau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. 6. Yr Archwiliad Cynhwysiad Ysgolion Mae dysgwyr yn dod yn arolygwyr trwy ymchwilio i'r canlynol: - A yw ein hysgol yn gwneud i bawb deimlo eu bod yn perthyn? - A oes rhywle tawel i weddio neu i fyfyrrio? - A yw'r arddangosfeydd yn cynrychioli byd-olwg gwahanol? - A yw digwyddiadau'r ysgol yn gynhwysol? Ar ôl myfyrrio ar y cwestiynau hyn, crëwch restr o lle mae'r ysgol yn llwyddo gyda baneri gwyrdd, yna lle y gallai wneud yn well gyda baneri ambr, a lle mae angen iddi wella'n sylweddol gyda baneri coch. Yna, ysgrifennwch argymhellion. 7. Her Undod Cymunedol

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	- Mae llywodraeth yn dweud bod deddf newydd yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, ond mae rhai pobl yn credu ei bod yn cyfyngu ar eu rhyddid. Pa werthoedd y dylid eu hystyried? 4. Dadl yr ECHR Defnyddiwch ffynonellau dibynadwy i ymchwilio i wahanol ddadleuon am yr ECHR. Gallai'r dysgwyr greu siart sy'n dangos dadleuon dros gadw, diwygio neu newid agweddau ar y system bresennol. Y cwestiwn allweddol o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw nid yn unig "Pa blaid wleidyddol sy'n iawn?" ond "Pa werthoedd a rhagdybiaethau am hawliau, awdurdod, cyfiawnder a chyfrifoldeb sydd y tu ôl i'r dadleuon hyn?". 5. Ystyried – Beth Fyddai'n Newid? Mae dysgwyr yn dychwelyd i'r arbrawf meddwl agoriadol ac yn cwblhau un o'r canlynol: - Ysgrifennu ymateb byr i: "Mae hawliau dynol yn bwysig oherwydd..." - Creu addewid "Hawliau a Chyfrifoldebau" gyda thair egwyddor y maen nhw'n credu y dylai cymdeithas deg eu hamddiffyn. - Dewis un hawl ddynol ac esbonio sut y gallai argyhoeddiad athronyddol crefyddol neu anghrefyddol gefnogi,		- Gan ddefnyddio'r enghraifft o'r capel ym Mangor, gofynnwch i grwpiau ddatrys problemau cymunedol modern. Er enghraifft, mae angen gofod cyfarfod ar grŵp ffydd; cymuned ffoaduriaid newydd yn cyrraedd; mae gwahanol grwpiau eisiau defnyddio'r un neuadd gymunedol. - Mae dysgwyr yn creu cynlluniau gweithredu sy'n dangos sut y gallai undod weithio yn ymarferol. 8. Prosiect Chwedleua Pobl Cymru (<i>Humans of Wales</i>) Mae myfyrwyr yn creu proffil byr o berson ifanc ffuglennol o Gymru sydd â byd-olwg arbennig, e.e. Cristnogol, Mwslimaidd, Iddewig, Sikhi, Dyneiddiwr, Paganaid, Anffyddiwr, Agnostig, Heddychwyr. Mae'r proffil yn esbonio: - Yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. - Sut maen nhw'n mynegi hunaniaeth. - Heriau y gallent eu hwynebu. - Sut y gall eraill ddangos parch. Cynnyrch fel posteri, podlediadau, proffiliau fel rhai Instagram neu fideos byr.

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
	cwestiynu neu ddyfnhau eu dealltwriaeth ohoni. Ystyried: "Os oes gan bawb werth cyfartal, pa gyfrifoldeb sydd gen i tuag at bobl eraill?" Cwricwlwm i Gymru – Dyniaethau/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Mae'r ymholiad hwn yn cefnogi'r Datganiad o'r hyn sy'n bwysig mewn Dyniaethau: "Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol." Mae'n defnyddio dull ymdrin amlddisgyblaethol tuag at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i archwilio argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol trwy gwestiynau am gred, byd-olwg, gwerthoedd, moeseg, cyfiawnder, cydraddoldeb, rhyddid, hawliau, cyfrifoldeb, hunaniaeth a ffynonellau awdurdod. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i archwilio nodweddion gwarchodedig, rhagfarn a gwahaniaethu, ac i ddatblygu ymatebion gwybodus, parchus i faterion cyfoes.		9. Ymgyrch Fyd-eang #BelongingWales Dychmygwch fod Llywodraeth Cymru yn lansio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol fyd-eang o'r enw #BelongingWales Mae dysgwyr yn creu, e.e., posteri, riliau, podlediadau, straeon ffeithlun, sy'n dangos sut y gallai Cymru hyrwyddo rhyddid crefyddol neu gred, cynhwysiad, parch ac undod. Heriwch nhw i gynnwys un enghraifft Gymreig ac un enghraifft ryngwladol. 10. Cymru yn 2050 Gofynnwch i ddysgwyr ddylunio cymuned Gymreig ddelfrydol yn 2050, lle mae pobl o wahanol grefyddau a chredoau yn byw gyda'i gilydd yn dda. Rhaid iddynt gynnwys: - Hawliau a chyfrifoldebau. - Ysgolion. - Mannau addoli a myfyrio. - Mannau cymunedol. - Ffyrdd y mae anghytundebau yn cael eu datrys.
Mwy o			Ffynonellau a darllen a argymhellir Ahmed, Abdul-Azim, <i>Muslim Wales: A History</i>

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
adnoddau			<i>in 9 Places</i> (Aberteifi: Seren, 2026). Allen, Richard C., David Ceri Jones, a Trystan Owain Hughes, <i>Religious History of Wales: Religious Life and Practice in Wales from the Seventeenth Century to the Present Day</i> (Caerdydd: Gwasg Academaidd Cymru, 2014). Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cred a chrefydd: https://www.equalityhumanrights.com/human-rights/human-rights-act/article-9-freedom-thought-belief-and-religion Chetty, Darren, Grug Muse, Hanan Issa, ac Iestyn Tyne (gol.), <i>Welsh (Plural): Essays on the Future of Wales</i> (Llundain: Repeater Books, 2022). <i>Ein Cymru Ni: Straeon am amrywiaeth a pherthyn</i> (Aberystwyth: Atebol, 2025). Fowler, Jeaneane, a Merv Fowler, <i>Chanting in the Hillsides: The Buddhism of Nichiren Daishonin in Wales and the Borders</i> (Lerpwl: Liverpool University Press, 2008). Hughes, Kristoffer. <i>The Book of Druidry: A Complete Introduction to the Magic & Wisdom of the Celtic Mysteries</i> (Woodbury, MN: Llewellyn Publications, 2023). Hawliau dynol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru): https://www.gov.wales/human-rights-wales JCR-UK: the former Bangor Hebrew Congregation & Jewish Community, Bangor, Gwynedd, Wales:

Teitlau	Dychmygwch fywyd heb hawliau... Beth fyddai'n newid?	Hunaniaeth - Hil, Crefydd, Diwylliant a Chenedligrwydd	A ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth bynnag maent ei eisiau?
			https://www.jewishgen.org/jcr-uk/community/bangor/index.htm Jones, David, Barry Lewis, Madeleine Gray, and D. Densil Morgan, <i>A History of Christianity in Wales</i> (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2022). Parry-Jones, Cai, <i>The Jews of Wales: A History</i> (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017). Starling, Mhara. <i>Welsh Witchcraft: A Guide to the Spirits, Lore, and Magic of Wales</i> (Woodbury, MN: Llewellyn Publications, 2022). Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2025 i 2029 (Llywodraeth Cymru): https://www.gov.wales/strategic-equality-and-human-rights-plan-2025-2029.html Universal Declaration of Human Rights: https://www.un.org/en/about-us/universal-declaration-of-human-rights <i>We Are Wales: Stories on diversity and belonging</i> (Aberystwyth: Atebol, 2025).